Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Astudiaethau achos

# Caru Gwenyn Cletwr

**Mae Cletwr yn gaffi a siop gymunedol arobryn, sydd hanner ffordd rhwng Machynlleth ac Aberystwyth.**

Mae gwirfoddolwyr o'r gymuned yn rhedeg grŵp garddio sy'n cynnal a chadw'r tir o amgylch yr adeiladau. O'r cychwyn, mae'r gymuned a chynaliadwyedd wedi bod wrth wraidd Cletwr. Nid yw'n syndod, felly, fod y grŵp garddio yn gwybod am bwysigrwydd peillwyr ac yn dymuno rhannu hynny ag eraill. Roeddent o'r farn y byddai bod yn rhan o'r cynllun Caru Gwenyn yn rhoi cyfle iddynt atgyfnerthu ac arddangos yr hyn yr oeddent yn ei wneud. Gan arwain drwy esiampl, maent yn gobeithio annog gweddill y gymuned ac ymwelwyr i ymuno yn yr hwyl a chymryd camau i helpu peillwyr.





Er bod lle ar gyfer tyfu yn brin, maent wedi ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd lle y gallant. Mae'r ardd yn cynnwys: llwyn a gwely blodau ger y man gwefru cerbydau trydan; prif forder blodau y tu allan i'r siop a'r caffi; gwely bach ger y banc poteli; plannwr perlysiau; llwyn a gwely blodau a gardd gerrig y tu ôl i Gletwr; a gardd berlysiau a ffrwythau ger drws y gegin, yn ogystal â sawl pot.

Credyd ffoto: Suzanne Brooks



Plannwyd pob un o'r rhain gan gadw peillwyr mewn cof. Mewn cornel rhwng ffordd y pentref a'r maes parcio, maent wedi creu llain fach o flodau gwyllt sydd wedi hadu eu hunain, planhigion plygiau blodau gwyllt cynhenid, a hadau cribell felen. Mae panel gwybodaeth yn esbonio'r rôl y mae blodau gwyllt yn ei chwarae wrth ddarparu bwyd a lloches i bryfed. Mae'r llain hon yn cael ei thorri yn ystod yr hydref, gan ganiatáu i'r blodau flodeuo a hadu.

Maent wedi plannu perth gynhenid a'r gobaith ymhen amser yw y bydd yn darparu cysgodfa ar gyfer pryfed sy'n gaeafgysgu, yn ogystal â bod yn ffynhonnell fwyd. Yn yr hydref, nid ydynt yn torri'r holl goesynnau planhigion a phennau hadau yn ôl oherwydd y bydd y rhain yn rhoi lle i bryfed dreulio'r gaeaf. Byddant yn mynd ati i greu arwyddion i esbonio hyn. Mae aelod ieuengaf yr ardd, sy'n 10 oed, wedi creu arwydd darluniadol dwyieithog ar gyfer gwesty pryfed. Maent hefyd yn bwriadu creu arwydd sy'n rhoi gwybodaeth am y gwesty pryfed.

Roedd poster dwyieithog mawr yn cael ei arddangos y tu allan i'r siop/caffi am sawl mis. Roedd yn rhoi awgrymiadau i bobl ar sut y gallant wneud eu gerddi'n fwy deniadol i beillwyr. Cafodd y poster hwn ei gyhoeddi yn eu cylchlythyr hefyd. Maent wedi ysgrifennu erthygl ar gyfer y papur bro, Papur Pawb, ynglŷn â sut y gall pobl greu gardd sy'n denu peillwyr ac yn eu hannog i gyfri peillwyr. Y tu allan i'r siop, mae ganddynt stondin blanhigion lle gall pobl roi planhigion sy'n denu peillwyr i'w rhannu yn y gymuned.



Gwnaethant gynnal cystadleuaeth o'r enw "Paradwys i Beillwyr/A Paradise for Pollinators" i bobl greu lle arbennig ar gyfer peillwyr yn eu gerddi. Gwnaethant ofyn i bobl anfon ffotograffau ac ychydig eiriau am eu "Paradwys". Yn ystod Wythnos Natur Cymru fe wnaethant arddangos y cynigion mewn sioe sleidiau ar dudalen Facebook Cletwr. Yn gysylltiedig ag ymgyrch 'Caru Lle Rydych chi'n Byw' yng Ngheredigion, gwnaethant annog pobl i baentio cerrig ar thema peillwyr. Gellir gweld rhai o'r rhain o amgylch yr ardd.

Gwnaethant greu tudalen Facebook arbennig ar gyfer y gystadleuaeth yn gysylltiedig â thudalen Facebook Cletwr. Maent wedi'i gadw fel lle i dynnu sylw at yr hyn maent yn ei wneud ar gyfer peillwyr. Maent yn gobeithio y bydd hyn yn tynnu sylw pobl at wefannau ac eitemau newyddion perthnasol ac yn eu hysbrydoli i weithredu.

Maent yn bwriadu cynnal gŵyl peillwyr, a fydd yn ddigwyddiad i'r gymuned gyfan ac ymwelwyr gymryd rhan ynddi a dathlu hyfrydwch byd natur a pheillwyr. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau hwyliog i blant a theithiau cerdded o amgylch yr ardd yn siarad am blanhigion a mwynhau gweld pryfed gwahanol. Gan ddefnyddio gwybodaeth o'u poster, byddant yn datblygu taflen ar sut y gall pobl wneud eu gerddi'n ddeniadol i beillwyr. Maent hefyd yn gobeithio trefnu sgyrsiau ar bynciau cysylltiedig cyn bo hir e.e. sgwrs ddarluniadol am wyfynod.






OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43362